CBAC Lefel 2

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# Manyleb

Fersiwn 2 Medi 2023



# Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Manyleb

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Mae'r dyddiad rhyddhau ar gyfer astudiaethau Aseiniad 1 wedi'i ddiweddaru o fis Mawrth i'r dydd Llun cyntaf ym mis Ionawr. | 9,21,32 |

# Cynnwys

Cipolwg ar y cymhwyster 3

1. Cyflwyniad 4

Ynglŷn â'r cymhwyster 5

Strwythur 7

Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA), Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) a Chredydau 8

2. Crynodeb o'r asesu 9

Amcanion asesu 9

3. Unedau 11

Fformat yr uned 11

Cymeradwyo canolfannau a chymwysterau 30

Staff canolfannau 30

Gofynion cofrestru dysgwyr 31

Cyfyngiadau o ran oedran 31

Asesu cychwynnol a sefydlu 31

Deunyddiau cefnogi 32

Cofrestru 32

Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad 33

Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl 37

Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau 38

Ailsefyll **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad A: Aseiniad Asesiad Di-arholiad Uned 2**Error! Bookmark not defined.**

Atodiad B: Cynllun Marcio Aseiniad Di-arholiad Uned 2 40

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| Maes pwnc | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Rhif CBAC | 5972C0 |
| Rhif QiW | C00/1253/1 |
| Grŵp oedran cymeradwy | 16+ |
| Asesu | 40% asesu allanol<br>60% asesu di-arholiad mewnol |
| Cymeradwyaethau | Mae angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster |
| Dogfennau cysylltiedig | Deunyddiau Asesu Enghreifftiol<br>Canllawiau Addysgu<br>Canllaw i Ddysgwyr<br>Canllaw Gweinyddu Canolfannau<br>Canllaw Arfer Da i Leoliadau Gwaith<br>Cofnod Ymgysylltu â'r Sector a Lleoliadau Gwaith |
| Ymrestru ac ardystio | Ewch i wefan y Consortiwm am fanylion<br>www.dysguiechydagofal.cymru |

# 1. Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?** | Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n awyddus i ddysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?** | Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr ymgysylltu â'r sector am o leiaf ddeg diwrnod, y mae'n rhaid treulio o leiaf bump diwrnod (30 awr) ohono yn ymgymryd â lleoliad gwaith.<br><br>Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'n ofynnol i ddysgwr eu cyflawni fel rhan o'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Argymhellir yn gryf y dylai dysgwr sy'n ymgymryd â'r cymhwyster hwn fod wedi cwblhau neu fod wrthi'n cwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Noder mai un o ofynion Gofal Cymdeithasol Cymru yw y bydd angen i unigolyn sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol feddu ar y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd er mwyn gweithio mewn swyddi penodol. I gael rhagor o wybodaeth am ofynion gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol, gweler gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru:<br><br>https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru |

| | |
|---|---|
| **Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu?** | Mae'r cymhwyster hwn yn addas i unigolion sydd am ddatblygu i ymgymryd â dysgu/hyfforddiant pellach a/neu gymwysterau pellach, gan gynnwys:<br><br>• Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau<br>• TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant<br>• Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)<br>• Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)<br>• Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)<br>• Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori<br>• Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori<br>• Prentisiaethau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. |
| **Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster?** | Datblygwyd y cymhwyster hwn gan y Consortiwm[1] ar y cyd â rhanddeiliaid o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru y GIG, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd. |

[1]Mae'r consortiwm yn cynnwys City & Guilds of London Institute a CBAC a gydweithiodd i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

# Nodau ac amcanion y cymhwyster

Mae cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall yr egwyddorion craidd a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol a'u cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
- deall sut y gellir nodi anghenion unigryw unigolion ac ymateb iddynt
- myfyrio ar sut y caiff dulliau gweithredu person-ganolog eu mabwysiadu mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
- deall rolau swyddi a swyddogaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- deall sut mae lleoliadau, asiantaethau a gwasanaethau gwahanol yn cydweithio er mwyn darparu gofal i unigolion
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu hastudiaethau.

# Strwythur

Mae cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn gymhwyster unedol sy'n golygu y gellir cynnal asesiadau fesul cam i raddau. Mae'n cynnwys dwy uned orfodol:

| Rhif yr uned | Teitl yr Uned | ODA |
|---|---|---|
| 001 | Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd | 80 |
| 002 | Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog | 120 |
| | **Cyfanswm ODA** | **200** |

Er bod yr asesiad ar gyfer pob uned yn asesu'r cynnwys sy'n benodol i'r uned honno, rhoddir y cyfle i ddysgwyr greu cysylltiadau rhwng elfennau o bob rhan o'r cwrs astudio llawn, ac i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r elfennau hynny.

# Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA), Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) a Chredydau

Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr.

Cyfanswm yr Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) a neilltuwyd ar gyfer Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yw 200 awr.

Dyrannwyd yr ODA fesul uned er mwyn helpu i gyflwyno'r cymhwyster. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn mewn dull cyfannol ac, felly, dim ond argymhelliad yw'r oriau fesul uned.

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw'r cyfanswm o amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr oriau dysgu dan arweiniad ac amser ychwanegol a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Cyfrifwyd mai Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) y cymhwyster hwn yw 300 awr. Mae hyn yn cynnwys:

- 200 awr o ddysgu dan arweiniad
- lleiafswm gorfodol o ddeg diwrnod (60 awr) o ymgysylltu â'r sector, ac o'r rhain mae'n rhaid treulio 30 awr (5 diwrnod x 6 awr neu gywerth â 30 awr) ar leoliad gwaith
- a 40 awr ychwanegol o waith astudio hunangyfeiriedig a all gynnwys:
    - aseiniadau a thasgau ychwanegol a osodir gan y tiwtor (gwaith cartref)
    - defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein
    - cwblhau gwaith ymchwil annibynnol gan gynnwys darllen cyhoeddiadau ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r sector.

Gwerth credyd y cymhwyster hwn yw 30. Mae fformiwla sy'n cyfateb i werth y CAC wedi'i rannu â 10 yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r credyd.

# 2. Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| **Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd**<br>**Asesiad allanol**<br>**Arholiad ysgrifenedig**<br>**40% o'r cymhwyster**<br>**90 munud**<br>**80 marc 100 GMU** |
| Arholiad (a gaiff ei sefyll naill ai ar-sgrin neu fel papur ysgrifenedig) sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu holl gynnwys y fanyleb sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd.<br>Mae pob cwestiwn yn orfodol. |
| **Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog**<br>**Asesiad di-arholiad mewnol**<br>**60% o'r cymhwyster**<br>**10 awr**<br>**120 marc 150 GMU** |
| Dau aseiniad a osodir yn allanol ac a asesir yn fewnol.<br>Mae Aseiniad 1 yn cynnwys dewis o ddwy astudiaeth achos ac mae ar gael i ganolfannau o wefan ddiogel CBAC pob blwyddyn ar y dydd Llun cyntaf ym mis Ionawr (o 2020 ymlaen).<br>Mae Aseiniad 2 i'w weld yn Atodiad A ac mae'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi'u meithrin wrth ymgysylltu â'r sector. |

## Amcanion asesu

Mae Amcanion Asesu (AA) yn cyfeirio at y sgiliau y mae angen i ddysgwyr eu dangos wrth ymateb i gwestiynau mewn arholiad neu dasg. Mae cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn cynnwys tri amcan asesu:

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.
- cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
- dadansoddi a myfyrio ar agweddau ar egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd yr asesiadau mewnol a'r asesiadau allanol yn targedu'r amcanion asesu hyn yn unol â'r pwysoliadau canlynol:

| Amcan | Gofynion | Pwysoliadau |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol. | 35-40% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol | 38-42% |
| AA3 | Dadansoddi a myfyrio ar agweddau ar egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol | 21-25% |

**Dadansoddiad o asesiadau unedau**

| Uned | Amser | Pwysoliad y cymhwyster | Marciau crai | Marc AA | | Pwysoliad AA | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 awr 30 munud | 40% | 80 | AA1 | 28-32 | AA1 | 35-40% |
| | | | | AA2 | 32-34 | AA2 | 38-42% |
| | | | | AA3 | 18-20 | AA3 | 22-25% |
| 2 | 10 awr | 60% | 120 | AA1 | 42 | AA1 | 35% |
| | | | | AA2 | 48 | AA2 | 40% |
| | | | | AA3 | 30 | AA3 | 25% |

# 3. Unedau

## Fformat yr uned

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar yr elfennau gwahanol sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau.

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Uned** | Yn crynhoi cynnwys yr uned. |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** | Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr.<br>Dyrannwyd yr ODA fesul uned er mwyn helpu i gyflwyno'r cymhwyster. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn mewn dull cyfannol ac, felly, dim ond argymhelliad yw'r oriau fesul uned. |
| **Trosolwg o'r uned** | Yn darparu crynodeb o gynnwys yr uned. Mae'n gosod cyd-destun yr uned ac yn nodi pwrpas yr hyn a ddysgir yn yr uned. |
| **Asesu** | Yn crynhoi'r dull asesu ar gyfer yr uned. |
| **Datblygu sgiliau** | Yn nodi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau. |
| **Maes testun** | Yn darparu disgrifiad cryno o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y bydd y dysgwr yn eu caffael. |
| **Cynnwys a addysgir** | Yn dynodi'r cynnwys y mae'n rhaid ei addysgu i bob dysgwr. |

# Uned 1

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Uned** | Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd |
| **ODA** | 80 |
| **Trosolwg o'r uned** | Drwy'r uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>1.1 Agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar draws rhychwant oes unigolion.<br>1.2 Dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar dwf, iechyd a llesiant.<br>1.3 Y ffactorau sy'n llywio hunangysyniad.<br>1.4 Rôl a phwrpas hybu iechyd a llesiant.<br>Argymhellir yn gryf bod athrawon yn addysgu meysydd testun 1.1 ac 1.2 yn gyfannol |
| **Asesu** | Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n allanol drwy arholiad ysgrifenedig (neu ar-sgrin) sy'n cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster.<br>Gellir asesu'r holl gynnwys drwy unrhyw un o'r tri amcan asesu. |
| **Datblygu sgiliau** | Drwy astudio'r uned hon, ceir cyfleoedd i ddatblygu sgiliau.<br>Ymhlith y cyfleoedd hyn mae:<br>• **llythrennedd digidol a rhifedd:** drwy waith ymchwil unigol ar-lein i'r patrymau datblygu allweddol ar draws y rhychwant oes<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth ystyried sut mae dewisiadau bywyd unigolyn a'i brofiad o ddigwyddiadau mewn bywyd yn effeithio ar ddatblygiad<br>• **cynllunio a threfnu:** wrth ymchwilio i fentrau iechyd a llesiant presennol sydd ar waith gan y llywodraeth<br>• **cynllunio ac effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

| Maes Testun | Cynnwys a Addysgir |
|---|---|
| 1.1<br>Agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar draws rhychwant oes unigolion | Er mwyn gwybod a deall agweddau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar draws rhychwant oes unigolion, dylai fod gan ddysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth **sylfaenol** o'r cerrig milltir disgwyliedig mewn perthynas â datblygiad corfforol, deallusol (gwybyddol), ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol sy'n berthnasol i bob un o'r prif gamau yn rhychwant oes unigolyn:<br>• Babandod – 0-2 oed<br>• Plentyndod – 3-12 oed<br>• Llencyndod – 13-19 oed<br>• Oedolaeth – 20-64 oed<br>• Oedolaeth ddiweddarach – 65+ oed<br><br>**Agweddau corfforol ar ddatblygiad**<br>Parhaus o adeg geni hyd at ddiwedd oes, gan gynnwys:<br>• **Babandod a phlentyndod**: newidiadau o ran twf: taldra, pwysau, defnyddio siartiau canraddol a'r Cofnod Sgiliau Tyfu, datblygu dannedd, craffter gweledol a chlyw, meithrin sgiliau: sgiliau echddygol bras e.e. eistedd, cropian, sefyll a cherdded; sgiliau echddygol manwl e.e. cydsymud llaw a llygad, datblygu hylendid da, hyfforddi i ddefnyddio'r toiled, annibyniaeth, hydradu a maeth, adnabod a datblygiad rhywedd.<br>• **Llencyndod:** glasoed a'r newidiadau gwahanol sy'n digwydd mewn merched/bechgyn, tyfu'n sydyn, hormonau, mislif<br>• **Oedolaeth:**<br>    • newidiadau i fenywod yn ystod oedolaeth: yn ystod beichiogrwydd, yn ystod y menopos, ennill pwysau, lleihad yn y Gyfradd Metabolaeth Waelodol (*BMR*)<br>    • newidiadau i ddynion yn ystod oedolaeth: mwy o gryfder yn y cyhyrau, magu pwysau, lleihad yn y Gyfradd Metabolaeth Waelodol (BMR), y gallu i atgenhedlu yn dechrau dirywio<br>• **Oedolaeth ddiweddarach:** gall y canlynol ddigwydd yn ystod y broses heneiddio colli gwallt, newidiadau i'r croen, colli tôn a chryfder y cyhyrau, dirywiad mewn symudedd, sgiliau echddygol bras a manwl, golwg a chlyw.<br><br>**Agweddau deallusol (gwybyddol) ar ddatblygiad:**<br>Parhaus o adeg geni hyd at ddiwedd oes, gan gynnwys:<br>• **Babandod a phlentyndod**: sut mae plant yn dysgu drwy chwarae<br>    • datrys problemau e.e. gwneud penderfyniadau<br>    • sgiliau meddwl, gweithredu diriaethol e.e. gwneud synnwyr o'r byd a chwestiynau 'pam?'<br>    • cysyniadau e.e. tymheredd, lliw, siâp, maint, hyd, pellter, amser, ymwybod â gofod<br>    • caffael iaith, rôl sgiliau iaith, sgiliau cyfathrebu, dysgu darllen.<br><br>• **Llencyndod – Oedolaeth:** sgiliau meddwl a gwybodaeth uwch, gwneud penderfyniadau, datblygiad deallusol parhaus ac aeddfedrwydd, rhesymu generig, rhesymeg ffurfiol, cyflawniad academaidd a chyfleoedd cyflogaeth, |

| Maes Testun | Cynnwys a Addysgir |
|---|---|
| | datblygu gallu meddyliol a'r cof, datblygu sgiliau iaith ymhellach (dwyieithog, amlieithog), pwysigrwydd cydnabod, defnyddio a chefnogi'r iaith Gymraeg<br>• **Oedolaeth ddiweddarach:** sgiliau meddwl a gwybodaeth uwch yn parhau. Ar ôl ymddeol, gall unigolion rannu gwybodaeth newydd â'i gilydd, fel dysgu iaith newydd i gynorthwyo'r cof. Effaith heneiddio ar gof a galw i gof, effaith seicolegol colli sgiliau. |
| | **Agweddau emosiynol ar ddatblygiad**<br>Parhaus o adeg geni hyd at ddiwedd oes, gan gynnwys:<br>• **Babandod a Phlentyndod:** bondio, ymlyniadau cadarnhaol neu ansicr, cymdeithasoli, hunangysyniad, hunan-barch, hunanhyder<br>• **Llencyndod:** datblygu teimladau, sicrwydd a perthnasoedd<br>• **Oedolaeth:** sicrwydd a perthnasoedd, ffurfio perthnasoedd agos, bodlonrwydd<br>• **Oedolaeth Ddiweddarach:** bodlonrwydd yn parhau; effeithiau dibynnu mwy ar eraill.<br><br>**Agweddau cymdeithasol ar ddatblygiad**<br>Parhaus o adeg geni hyd at ddiwedd oes, gan gynnwys:<br>• **Babanod a Phlentyndod:** pwysigrwydd chwarae, camau chwarae, sgiliau cymdeithasol a datblygiad moesol e.e. y gwahaniaeth rhwng da a drwg, gwirionedd a chelwyddau<br>• **Llencyndod:** grwpiau o ffrindiau, perthnasoedd, pwysau gan gyfoedion, cydbwyso gwaith ysgol a chwarae<br>• **Oedolaeth:** rhyngweithio a rolau: perthnasoedd gwaith, teuluol a chymdeithasol, annibyniaeth, cydbwysedd bywyd-gwaith, perthnasoedd newydd<br>• **Oedolaeth Ddiweddarach:** effaith henaint ar berthnasoedd: colled, unigrwydd. |

| Maes Testun | Cynnwys a addysgir |
|---|---|
| 1.2<br>Dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar dwf, iechyd a llesiant | Dylai dysgwyr wybod a deall dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd (cadarnhaol neu negyddol) ar dwf, iechyd a llesiant, a'r rhyngberthynas bosibl rhwng y ffactorau hyn.<br><br>**Ffactorau mewn bywyd**<br>Gan gynnwys:<br>• **diwylliant a chrefydd:** amrywiaeth diwylliannol, ethnig a hiliol, crefydd a chredoau, gwahaniaethu a rhagfarn<br>• **statws economaidd**: cyfoeth, cyflogaeth, diweithdra, tlodi, incwm isel<br>• **profiadau addysgol**: chwarae a dysgu/symbyliad, cefnogaeth ac arweiniad drwy addysg, addysg gorfforol ac awyr agored, lefel o addysg a chymwysterau, effaith ar hyder a hunan-barch, dwyieithrwydd, mwy abl a thalentog, anhwylderau iaith, cyflyrau ymddygiadol<br>• **strwythur teuluol:** math a maint, traddodiadol neu amgen, ansawdd perthnasoedd teuluol a pherthnasoedd eraill<br>• **amgylchedd cartref:** ffactorau demograffig, cymdeithasol, emosiynol ac amgylcheddol, ansawdd llety a chyfleusterau<br>• **cyflyrau tymor hir a chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd:**<br>    • cyflyrau cynhenid, e.e. syndrom Down a spina bifida<br>    • cyflyrau dirywiad acíwt, e.e. sepsis, dementia<br>    • cyflyrau etifeddiad genetig/rhagdueddiad i gyflyrau meddygol penodol, e.e. ffibrosis cystig<br>    • clefydau cronig, e.e. arthritis, asthma<br>    • **anableddau corfforol**, e.e. parlys yr ymennydd<br>    • **damweiniau sy'n gallu effeithio ar iechyd**<br>    • **cyflyrau sy'n gyffredin yng Nghymru,** e.e. anhwylderau sbectrwm awtistaidd, clefyd coronaidd y galon, clefyd resbiradol, canserau<br>• **anhwylderau ymddygiad**, e.e. anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (*ADHD*)<br>• **iechyd meddwl**: afiechyd meddwl, anhwylderau bwyta, iselder, gorbryder<br>• **maeth a hydradu:** bwydo ar y fron, bwydo o'r botel, diddyfnu, gordewdra, deiet (deietau cytbwys ac anghytbwys), anoddefiadau ac alergeddau bwyd, deietau arbennig, diffyg maeth, tlodi bwyd, cefnogi anghenion maeth wrth roi gofal yn y cartref, mewn cartrefi gofal ac mewn ysbytai<br>• **cyfleoedd:** cymryd rhan mewn gweithgareddau fel chwarae, hamdden a chwaraeon er mwyn cefnogi twf, iechyd a llesiant, cysylltiadau â chefnogaeth a rhwydweithiau cymdeithasol<br>• **gweithgarwch corfforol:** bod yn heini a gwneud ymarfer corff, faint a'r math o weithgaredd, manteision ymarfer corff o gymharu â risgiau gwneud fawr ddim ymarfer corff, os o gwbl, ymlacio<br>• **iechyd corfforol:** dylanwadau demograffig ac amgylcheddol, pwysau iach a *BMI*, imiwneiddiadau, archwiliadau gyda'r deintydd, mynd i apwyntiadau sgrinio, |

| Maes Testun | Cynnwys a addysgir |
|---|---|
| | profion llygaid rheolaeth, colli'r synhwyrau (clyw a golwg), clefydau, namau, cyflyrau cynhenid<br>• **llygredd:** llygredd aer a sŵn, iechydaeth a dŵr, effaith ar gyflyrau corfforol fel anhwylderau resbiradol, anhwylderau cardiofasgwlar, alergeddau, straen a hylendid personol a sut maen nhw'n effeithio ar lesiant<br>• **rhywioldeb:** Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (*LGBT*)<br><br>**Dewisiadau ffordd o fyw**<br>Gan gynnwys:<br>• **dylanwad pobl eraill**: modelau rôl, pwysau gan gyfoedion, cyfryngau cymdeithasol, cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol yn y gymuned<br>• **ymwneud â throsedd** gangiau, trais, bygwth<br>• **eiddo materol:** chwenychiadau o gymharu ag anghenion, amddifadedd materol<br>• **rhywioldeb:** ymgadw'n ddibriod a monogami<br>• **ysmygu:** tybaco a chynhyrchion e-ysmygu<br>• **camddefnyddio sylweddau:** alcohol, cyffuriau anghyfreithlon, meddyginiaeth ar bresgripsiwn a sylweddau seicoweithredol newydd, sylweddau anterth cyfreithlon, gan gynnwys rhieni'n camddefnyddio sylweddau<br>• **defnyddio technoleg:** rhwydweithio cymdeithasol.<br><br>**Digwyddiadau bywyd**<br>Gan gynnwys:<br>• **teulu:** genedigaeth, gadael cartref, priodas, dechrau teulu, perthnasoedd oedolion, ysgariad, ymddeol, colli teulu, marwolaeth, profedigaeth<br>• **cam-drin:** emosiynol, corfforol, rhywiol, seicolegol, geiriol, domestig, ariannol ac esgeulustod – gan gynnwys ymddygiad sy'n rheoli/gorfodi o fewn perthnasoedd teuluol a/neu berthnasoedd rhywiol personol ac agos<br>• **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** (PNPau): profiadau trawmatig sy'n digwydd yn ystod plentyndod/llencyndod ac a fyddai'n gallu cael effaith ar oedolaeth<br>• **addysg:** dechrau/newid ysgol, addysg bellach (AB), addysg uwch (AU), addysg oedolion a dysgu gydol oes<br>• **cyflogaeth/diweithdra:** dechrau gweithio, colli swydd, lefel sgiliau, talu cymhorthdal incwm, budd-daliadau, diffyg cyfleoedd cyflogaeth<br>• **afiechyd:** gwendid, bod neu ddod yn ofalwr neu'n ofalwr ifanc i aelod o'r teulu, symud i mewn i ofal. |

| Maes Testun | Cynnwys a addysgir |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr wybod a deall yr effaith ar unigolion o beidio â chyrraedd cerrig milltir datblygiadol o ganlyniad i ddylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar eu twf, eu hiechyd a'u llesiant. Gan gynnwys:<br>• stigma<br>• labelu<br>• atgyfeiriadau at wasanaethau a mynediad i wasanaethau<br>• anghydraddoldebau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i gefnogi unigolion nad ydyn nhw'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol o ganlyniad i ddylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar eu twf, eu hiechyd a'u llesiant. Gan gynnwys:<br>• eiriolaeth<br>• asesu: cynlluniau gofal a chymorth<br>• therapïau cymorth a hyfforddiant<br>• cefnogaeth uniongyrchol i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal<br>• cefnogaeth ariannol: aelodau o'r teulu a fydd o bosibl yn rhoi'r gorau i weithio er mwyn gofalu am unigolyn<br>• cefnogaeth broffesiynol: gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), cwnsela<br>• therapïau arbenigol, e.e. therapi iaith a lleferydd, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol i gefnogi datblygiad gwybyddol (neu therapïau siarad), sgiliau corfforol, synhwyraidd a symud, a chynyddu hunan-barch a theimlad o gyflawniad<br>• grwpiau cefnogi, ymwybyddiaeth ofalgar, celfyddydau cymunedol<br>• hyfforddiant penodol i unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol neu faterion iechyd meddwl, e.e. sgiliau cymdeithasol, sgiliau gofal personol a sgiliau gwaith sylfaenol. |

<table>
<tr><th>Maes Testun</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td>1.3<br>Y ffactorau sy'n llywio hunangysyniad</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol, cynhwysiant, gwydnwch a hunangysyniad wrth gefnogi unigolion i ymdopi â digwyddiadau mewn bywyd ac ymateb iddyn nhw, a'r ffordd y maen nhw'n helpu unigolion i dyfu a datblygu'n barhaus.<br>Gan gynnwys:
<ul>
<li>cyfranogiad gweithredol: yn galluogi unigolion i gael eu cynnwys yn eu gofal eu hunain a chael mwy o lais yn y ffordd maen nhw'n byw eu bywyd mewn ffyrdd sydd o bwys iddyn nhw</li>
<li>cynhwysiant: mae gan bawb, waeth beth fo'u galluoedd, eu hanableddau neu'u hanghenion gofal iechyd, fynediad a chyfle cyfartal</li>
<li>gwydnwch: gallu unigolyn i addasu'n llwyddiannus i dasgau bywyd yn wyneb anfantais gymdeithasol neu amodau anffafriol eraill, fel problemau o ran y teulu neu berthnasoedd, problemau iechyd, pryderon ynglŷn â'r gweithle a phryderon ariannol</li>
<li>hunangysyniad: y darlun sydd gennych ohonoch eich hun (hunanddelwedd), faint o bwys rydych yn ei roi arnoch eich hun (hunan-barch neu hunan-werth), y math o berson yr hoffech fod mewn gwirionedd (hunan delfrydol).</li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau cadarnhaol a negyddol a fyddai'n gallu effeithio ar hunangysyniad a sut y gellir cefnogi hyn.<br>Gan gynnwys:
<ul>
<li>cam-drin</li>
<li>oedran</li>
<li>ymddangosiad</li>
<li>diwylliant</li>
<li>addysg</li>
<li>datblygiad emosiynol a deallusrwydd emosiynol</li>
<li>yr amgylchedd</li>
<li>rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol</li>
<li>effaith gwahaniaethu</li>
<li>incwm</li>
<li>sylw negyddol gan y cyfryngau</li>
<li>perthnasoedd ag eraill: gofalwyr/teulu</li>
<li>ymdeimlad o sicrwydd: synnwyr seicolegol y bydd popeth yn iawn</li>
<li>cyfryngau cymdeithasol</li>
<li>cymdeithasoli: perthnasoedd ag eraill, gofalwyr/teulu, ffrindiau</li>
<li>stereoteipio.</li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod a deall y gellir annog unigolion i ddatblygu a defnyddio gwydnwch a hunangysyniad cadarnhaol er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol mewn lleoliadau a sefyllfaoedd gwahanol.<br><br>Gan gynnwys:
<ul>
<li>ymgysylltu ag eraill</li>
<li>cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd</li>
<li>canmol a gwobrau</li>
<li>deall terfynau a ffiniau.</li>
</ul></td></tr>
</table>

| Maes Testun | Cynnwys a addysgir |
|---|---|
| 1.4<br>Rôl a phwrpas hybu iechyd a llesiant | Dylai dysgwyr wybod a deall rôl a phwrpas hybu iechyd a llesiant ar draws y rhychwant oes.<br>Gan gynnwys:<br>**Rôl:** codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag iechyd a llesiant<br>**Pwrpas:** gwella'r dewisiadau mae unigolyn yn eu gwneud am ei ymddygiad a'i ffordd o fyw a fydd, os bydd yn parhau, yn cael effaith tymor hir ar ei iechyd, ei lesiant a'i wydnwch<br>**Manteision:** lleihau'r risgiau i iechyd a llesiant, gwella symudedd cymdeithasol a chyfleoedd cyflogaeth a lleihau costau iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut i gefnogi unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.<br>Gan gynnwys:<br>• annog unigolion i ddefnyddio eu cryfderau eu hunain a chryfderau eu rhwydweithiau anffurfiol<br>• addysgu unigolion a rhoi gwybodaeth a chyngor ar iechyd a llesiant iddyn nhw er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol am eu ffordd o fyw mewn perthynas â risgiau penodol i iechyd a llesiant<br>• ymgyrchoedd a mentrau hybu wedi'u targedu at godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant ymhlith cynulleidfaoedd penodol yn lleol ac yn genedlaethol, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector<br>• sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd drwy ddeddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall ffyrdd o hybu iechyd a llesiant.<br>Gan gynnwys:<br>**Ymgyrchoedd iechyd:** arferion rhywiol diogel, bwyta'n iach, ymarfer corff, ymwybyddiaeth o gyffuriau, ymwybyddiaeth o alcohol, ymwybyddiaeth o ganser, ysmygu, cyflyrau meddygol (diabetes, clefyd cardiofasgwlar, strociau) ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl (straen, iselder).<br><br>**Ymgyrchoedd llesiant:** diogelwch personol, diogelwch ar y ffyrdd, cadw'n gynnes yn ystod y gaeaf, diogelwch tân (larymau mwg), arwahanu cymdeithasol, caethwasiaeth fodern, Rhentu Doeth Cymru, trefi a busnesau sy'n deall dementia, Byw Heb Ofn/Gofyn a Gweithredu (trais domestig), Beth am Siarad â Fi? (atal hunanladdiad). |

| Maes Testun | Cynnwys a addysgir |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr wybod a deall y mathau gwahanol o ddeunyddiau a dulliau hybu iechyd sy'n cael eu defnyddio i hybu iechyd a llesiant.<br>Gan gynnwys:<br>• taflenni a phosteri<br>• hysbysebion: teledu, radio, cylchgronau a phapurau newydd<br>• ffenestri naid ar y rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol<br>• gwefannau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall rôl, pwrpas a heriau mentrau iechyd a llesiant presennol.<br>Gan gynnwys:<br>• ymwybyddiaeth o wrthfiotigau<br>• brechiadau ffliw<br>• mentrau iechyd mewn ysgolion<br>• gwrth-ysmygu<br>• atal hunanladdiad a hunan-niwed<br>• gwasanaethau sgrinio a brechiadau<br>• arwahanu cymdeithasol<br>• brwsio dannedd.<br><br>Mae'r ymgyrchoedd a'r mentrau sydd wedi'u rhestr uchod yn golygu cyfnod byr o amser. Mae rhestr o fentrau iechyd a llesiant diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gael yn https://www.dysguiechydagofal.cymru/. Cynghorir canolfannau'n gryf i gyflwyno'r rhestr hon wrth gynllunio eu rhaglen addysgu a dysgu i sicrhau eu bod yn cyfeirio at yr ymgyrchoedd a'r mentrau diweddaraf. |

# Uned 2

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Uned** | Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog |
| **ODA** | 120 |
| **Trosolwg o'r uned:** | Drwy'r uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br><br>2.1 Yr amrywiaeth o anghenion unigol ar draws y rhychwant oes.<br><br>2.2 Yr amrywiaeth o gyfleoedd a heriau, yn lleol a ledled Cymru.<br><br>2.3 Rolau a chyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>2.4 Deddfwriaeth ac egwyddorion gofal a chefnogaeth.<br><br>Yn yr uned hon, mae gofyn i ddysgwyr gwblhau **10** diwrnod gorfodol o ymgysylltu â'r sector, neu wedi'i rannu'n gywerth dros **60** awr, **5** diwrnod neu **30** awr y mae'n rhaid ei dreulio mewn lleoliad gwaith. Gweler Adran 5 am ragor o wybodaeth am ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith.<br><br>Rhaid i ddysgwyr lenwi'r cofnod ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith sydd ar gael ar dudalen y cymhwyster ar wefan www.dysguiechydagofal.cymru er mwyn cofnodi sut maen nhw wedi cronni'r oriau ymgysylltu â'r sector.<br>Dylid hefyd annog dysgwyr i gadw dyddiadur/log myfyriol o'u hymgysylltiad â'r sector a'u gweithgareddau lleoliad gwaith. Mae gwybodaeth i ddysgwyr a thempled ar gyfer y dyddiadur myfyriol ar gael yn y Canllaw i Ddysgwyr ar gael ar y wefan www.dysguiechydagofal.cymru. |
| **Asesu:** | Mae'r uned hon yn cael ei hasesu drwy ddau aseiniad wedi'u gosod.<br><br>Mae Aseiniad 1 yn cynnwys dewis o ddwy astudiaeth achos ac mae ar gael i ganolfannau o wefan ddiogel CBAC ar y dydd Llun cyntaf ym mis Ionawr bob blwyddyn (o 2020 ymlaen). Mae pob astudiaeth achos yn helpu dysgwyr i ddeall darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chyfleoedd cyflogaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i ddysgwyr ddewis un astudiaeth achos ac ateb y tasgau cysylltiedig.<br><br>Mae Aseiniad 2 i'w weld yn Atodiad A. Mae Aseiniad 2 yn gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth maen nhw wedi'u meithrin wrth ymgysylltu â'r sector.<br><br>Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 60% at y radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster. Gellir asesu'r holl gynnwys drwy unrhyw un o'r **tri** amcan asesu. |

| Datblygu sgiliau | Drwy astudio'r uned hon, ceir cyfleoedd i ddatblygu sgiliau.<br><br>Ymhlith y cyfleoedd hyn mae:<br><br>• **llythrennedd digidol a rhifedd:** drwy waith ymchwil unigol i'r mathau gwahanol o ddarpariaeth iechyd, gofal a chefnogaeth sydd ar gael i unigolion yng Nghymru<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth ystyried y ffordd mae'r sectorau yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cynnig gofal a chefnogaeth i unigolion i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau<br>• **cynllunio a threfnu:** drwy ymgysylltu â'r sector er mwyn paratoi ar gyfer eu tasg asesu di-arholiad<br>• **cynllunio ac effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer yr asesiad. |
|---|---|

<table>
<tr><th>Maes testun</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td>2.1<br>Yr amrywiaeth o anghenion unigol ar draws y rhychwant oes</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall damcaniaethau sefydledig allweddol a sut maen nhw'n effeithio ar anghenion gofal, canlyniadau a datblygiad ar draws y rhychwant oes.<br><br>Gan gynnwys:<ul><li>Maslow: mae ymddygiad unigolyn yn seiliedig ar ei anghenion; mae bodloni'r fath anghenion yn dylanwadu ar ei ymddygiad</li><li>Erikson: wyth cyfnod datblygiad seicogymdeithasol.</li></ul>Dylai dysgwyr wybod a deall amrywiaeth o anghenion dynol sylfaenol o ar draws y rhychwant oes.<br><br>Gan gynnwys:<ul><li>anwyldeb: parch, haelioni, teulu, cyfeillgarwch, perthnasoedd</li><li>creadigaeth: galluoedd, sgiliau</li><li>rhyddid: ymreolaeth, hunan-barch, cydraddoldeb</li><li>hunaniaeth: synnwyr o ymberthyn, hunan-barch, gwerthoedd</li><li>hamdden: ymarfer corff, ymlacio, mwynhad</li><li>cyfranogiad: cyfrifoldebau, hawliau</li><li>diogelwch: gofal, hyblygrwydd, annibyniaeth</li><li>cynhaliaeth: iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, bwyd, lloches, gwaith</li><li>dealltwriaeth: addysg, chwilfrydedd, greddf.</li></ul>Dylai dysgwyr wybod a deall bod anghenion gofal corfforol a chefnogaeth emosiynol yn newid drwy gydol y rhychwant oes<br><br>Gan gynnwys:<ul><li>newidiadau i anghenion oherwydd digwyddiadau bywyd rhagweladwy / anrhagweladwy e.e. symud o feithrinfa i ysgol i brifysgol, cyflogaeth / diweithdra, cael / peidio â chael plant, profedigaeth</li><li>newidiadau i anghenion unigolion sy'n byw gyda:<ul><li>clefydau cronig</li><li>anableddau corfforol</li><li>afiechyd meddwl</li><li>damweiniau sy'n effeithio ar iechyd.</li></ul></li><li>ar gyfer unigolion sy'n cael diagnosis o gyflwr sy'n bygwth bywyd neu sy'n byrhau bywyd, hyd at y gofal sy'n cael ei roi iddyn nhw yn ystod oriau olaf eu bywyd, gan gynnwys gofal lliniarol a gofal diwedd oes.</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Maes testun</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td>2.2<br>Yr amrywiaeth o gyfleoedd a heriau yn lleol a ledled Cymru</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall y ffyrdd gwahanol y darperir gofal a chefnogaeth i unigolion yn ystod pob cam bywyd, yn lleol a ledled Cymru.<br><br>Gan gynnwys:<br>• Gofal iechyd, fel: gofal a chefnogaeth iechyd cychwynnol, e.e. gofal deintyddol, canolfannau iechyd, optegwyr, fferyllfeydd; gofal iechyd a chefnogaeth eilaidd e.e. ysbytai, gofal a chefnogaeth mamolaeth, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi<br>• Gofal cymdeithasol, fel: gofal maeth, gofal preswyl (oedolion a phlant), gwasanaethau cefnogaeth i blant a theuluoedd, gwasanaethau troseddau ieuenctid, gwaith ieuenctid, grwpiau cefnogi, llochesau i bobl ddigartref, canolfannau dydd, llochesau, gwasanaethau cynghori, canolfannau cynghori, llety byw â chefnogaeth, clybiau cinio, gofal cartref.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i ddarparu gofal a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod eu canlyniadau yn cael eu cyflawni.<br><br>Gan gynnwys:<br>Gweithio mewn partneriaeth: gydag unigolion, fforymau gofal, grwpiau hunangymorth, gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan y gymuned, gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu, gofalwyr di-dâl, economi gymysg o ofal(statudol, annibynnol a'r trydydd sector), gwaith amlasiantaethol, tîm amlddisgyblaethol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae unigolion yn achub ar gyfleoedd i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant, sut y gall y cyfleoedd hyn newid drwy gydol camau bywyd a'r heriau y gallan nhw eu hwynebu.<br><br>Gan gynnwys:<br>Achub ar gyfleoedd:<br>• dewis unigol: yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ddim o dan arweiniad gwasanaethau bellach<br>• asesiad cychwynnol: mae asesiadau'n cael eu cynnal er mwyn nodi anghenion gofal a chefnogaeth a dewisiadau'r unigolyn<br>• person-ganolog: cytuno â'r ffyrdd unigol y gellir helpu i gyflawni canlyniadau allweddol, e.e. sgyrsiau 'Yr Hyn sy'n Bwysig'<br>• gwaith amlasiantaethol: (lle y bo'n briodol) er mwyn cyflawni canlyniadau personol<br>• rôl eiriolaeth a'r hawl i gael eiriolaeth.<br><br>Heriau y gallai unigolion eu hwynebu:<br>• llymder: ariannu neu wasanaethau annigonol mewn rhannau o Gymru<br>• problemau mynediad, meini prawf cymhwystra<br>• prinder staff yn y gweithlu a hyfforddiant annigonol<br>• diffyg gwybodaeth ac arweiniad.</td></tr>
</table>

| Maes testun | Cynnwys a addysgir |
|---|---|
| 2.3<br>Rôl a chyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | Dylai dysgwyr wybod a deall rolau, cyfrifoldebau, llwybrau gyrfa a rhinweddau amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau gwahanol.<br><br>Rolau gwahanol i gynnwys:<br><br>**Gofal iechyd:** mae rolau yn cynnwys cefnogi anghenion clinigol pobl er mwyn iddyn nhw gyflawni canlyniadau personol.<br>Gan gynnwys: meddyg teulu, nyrs, ymwelydd iechyd, deintydd, optegydd, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), timau alcohol a chyffuriau, proffesiynau perthynol i iechyd, staff ategol/cefnogi e.e. gweinyddwyr meddygol, derbynwyr, llinellau cyngor mewn canolfannau galwadau.<br><br>**Gofal cymdeithasol:** mae rolau yn cynnwys gweithio ochr yn ochr ag unigolion/cefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau personol. Mae achosion pwysig o orgyffwrdd rhwng gweithio yn y sector iechyd a gweithio yn y sector gofal cymdeithasol.<br>Gan gynnwys: ategol, e.e. cogydd mewn cartref gofal; gofal uniongyrchol, e.e. cynorthwyydd personol, gweithiwr gofal, rheolwyr; rolau proffesiynol a reoleiddir, e.e. gweithiwr cymdeithasol; rolau cefnogi, e.e. gweithiwr estyn allan.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall rôl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wrth hybu a chefnogi iechyd a llesiant unigolion mewn lleoliadau gwahanol. Dylen nhw wybod a deall y gwneir hyn drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau llesiant yr unigolion a/neu drwy atal, trin, gwneud diagnosis a rheoli cyflyrau cronig.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall cyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Gan gynnwys:<br>• atebolrwydd: cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, sicrhau eu bod yn gymwys i wneud y weithgaredd y gofynnwyd iddyn nhw ei chyflawni; gallai methiant i wneud hynny arwain at achos gyfreithiol a chamau i ddisgyblu<br>• cydymffurfiad: cydymffurfio â chodau ymddygiad, polisïau a chanllawiau ar gyfer gweithwyr gofal ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>• dyletswydd gofal: rhwymedigaeth foesol neu gyfreithiol i sicrhau diogelwch a llesiant pobl eraill.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y rhinweddau y mae eu hangen i fod yn weithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Gan gynnwys:<br>• gallu i dalu sylw<br>• gallu gweithio gydag eraill<br>• ymroddiad<br>• empathi<br>• hyblygrwydd<br>• gonestrwydd |

<table>
<tr><th>Maes testun</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td></td><td>
<ul>
<li>angerdd</li>
<li>amynedd</li>
<li>agwedd gadarnhaol</li>
<li>dibynadwyedd</li>
<li>synnwyr digrifwch</li>
<li>sensitif i anghenion pobl eraill</li>
<li>parchu eraill</li>
<li>parod i ddysgu.</li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod a deall bod llawer o lwybrau gyrfa o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o'u hymgysylltiad â'r sector, dylid eu hannog i ddysgu am y llwybrau gyrfa a rolau'r gweithwyr proffesiynol y gallan nhw eu cyfarfod fod wedi'u cymryd.
Lleoliadau gwahanol i gynnwys:
Gofal iechyd: practisau meddygon teulu, clinigau deintyddol, canolfannau galw heibio, clinigau arbenigol, e.e. clinigau babanod, clinigau cynllunio teulu, clinigau iechyd rhywiol, cyngor clinigol o bell, ysbytai, clinigau ymarferwyr preifat, e.e. ceiropractydd, ffisiotherapydd, hosbisau, cartrefi gofal nyrsio, canolfannau ailalluogi.
Gofal cymdeithasol: gofal yn y cartref (gan gynnwys ailalluogi), cartrefi gofal (gyda neu heb ofal nyrsio), lleoliadau gofal dydd, cartrefi maeth, darpariaeth feithrin, cartrefi preswyl (oedolion a phlant), gofal seibiant, adsefydlu, gofal gan berthynas, gwasanaethau cymunedol, byw ar y cyd, byw â chefnogaeth, sefydliadau i droseddwyr ifanc, gwasanaethau carchar.
Dylai dysgwyr wybod a deall cyfrifoldebau cyflogwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
Gan gynnwys:
<ul>
<li>contractau cyflogaeth</li>
<li>rhoi diffiniad clir o'r dyletswyddau y bydd disgwyl i weithwyr gofal eu cyflawni a monitro'r dyletswyddau hynny.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Maes testun</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td>2.4<br>Deddfwriaeth ac egwyddorion gofal a chefnogaeth</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall rôl y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wrth lunio deddfwriaeth a pholisi ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (awdurdod datganoledig).<br><br>Deddfwriaeth a pholisïau i gynnwys:<br>• deddfwriaeth rheoleiddio a chynghori<br>• is-ddeddfwriaeth/deddfwriaeth eilaidd<br>• biliau a deddfau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut y caiff ymarfer proffesiynol ei gefnogi gan drefniadau i gofrestru gweithwyr proffesiynol, cyrff rheoleiddio a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol.<br><br>Gan gynnwys:<br>Cyrff rheoleiddio<br>• Gweithwyr gofal a gweithwyr gofal proffesiynol: Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Cyngor y Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol<br>• Gwasanaethau: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).<br><br>Codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol:<br>• Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol<br>• Canllawiau nad ydynt yn rheoleiddiol, e.e. Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru<br>• Y Gweithiwr Gofal Plant Preswyl: canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal plant preswyl sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o'r 3 darn canlynol o ddeddfwriaeth allweddol a'r ffordd maen nhw'n ategu gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i hybu egwyddorion gofal wrth gefnogi a hybu iechyd a llesiant:<br><br>1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd arnynt angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd arnynt angen cymorth. Mae hefyd yn cael ei defnyddio i weddnewid y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Ei bwrpas yw gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw weithio i hybu llesiant y rhai y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt, neu ofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt.<br><br>Mae prif egwyddorion y ddeddf yn cynnwys:<br>• cydgynhyrchu<br>• atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• llais a rheolaeth<br>• llesiant.</td></tr>
</table>

| Maes testun | Cynnwys a addysgir |
|---|---|
| | 2. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn dyfodol. Mae'n hysbysu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf am eu rhwymedigaeth gyfreithiol i:<br>• ystyried effaith tymor hir eu penderfyniadau<br>• ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig<br>• gydweithio gydag unigolion, cymunedau a'i gilydd.<br><br>Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau am y tro cyntaf, bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru weithio mewn ffordd gynaliadwy.<br><br>Mae hyn yn cynnwys:<br>• cynnal Egwyddorion datblygu cynaliadwy<br>• gosod a chyhoeddi amcanion llesiant<br>• gweithio i gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf.<br><br>3. **Fframwaith Strategol Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013):** 'Mwy na geiriau': fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn cynnig dull systematig o wella gwasanaethau i'r rhai sy'n dewis derbyn eu gofal yn Gymraeg, neu y mae angen hyn arnynt.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall diben deddfwriaeth a pholisïau diogelu a sut maent yn dylanwadu ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br><br>Gan gynnwys:<br>• Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)<br>• Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae rhagor o fanylion am ddeddfwriaeth a pholisïau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gael yn https://www.dysguiechydagofal.cymru/.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall bod egwyddorion gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar egwyddorion hawliau dynol. Mae'r rhain yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol ac yn disgrifio'r ffordd y dylai darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymddwyn tuag at unigolion er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol drwy hybu:<br>• dewis a rheolaeth<br>• cyfrinachedd<br>• cydgynhyrchu<br>• urddas<br>• dyletswydd gofal<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• empathi<br>• cydraddoldeb a chynhwysiant<br>• nodi ac osgoi arferion annerbyniol<br>• gofal person-ganolog<br>• chefnogaeth ymddygiadol cadarnhaol a gwybod pryd mae'n briodol i ddefnyddio arferion cyfyngol<br>• parch tuag at amrywiaeth a natur unigryw unigolion<br>• hawliau'r unigolyn: credoau, hunaniaeth, anghenion a dymuniadau ieithyddol |

| Maes testun | Cynnwys a addysgir |
| --- | --- |
| | • diogelu. |

# 4. Gofynion canolfannau

## Cymeradwyo canolfannau a chymwysterau

Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, bydd angen i ganolfannau sicrhau bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi'u cymeradwyo. Cyfeiriwch at wefan y Consortiwm (www.dysguiechydagofal.cymru) i gael rhagor o wybodaeth. Dylai staff canolfannau sicrhau eu bod yn gyfarwydd â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen ddysgu ar gyfer y cwrs.

## Staff canolfannau

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn ac yn marcio'r asesiad mewnol allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion canlynol: Dylent wneud y canlynol:

- dylent fod yn gymwys yn alwedigaethol a/neu'n hyddysg yn dechnegol yn y maes y maent yn ei addysgu, a rhaid bod y wybodaeth hon o leiaf ar yr un lefel â'r hyfforddiant a gyflwynir
- dylent feddu ar brofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu
- dylent feddu ar brofiad credadwy o addysgu a/neu ddarparu hyfforddiant.

Bydd y Consortiwm yn darparu hyfforddiant a DPP i staff cyflwyno a rheolwyr canolfannau er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant a'r canllawiau yn gydnaws ar draws y sector. Cyfrifoldeb y ganolfan fydd sicrhau bod staff cyflwyno yn mynychu'r digwyddiadau hyn, fel y bo'n briodol.

# 5. Cyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd y cymhwyster

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'u bod yn cael y cyfle i wneud hynny.

## Cyfyngiadau o ran oedran

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer dysgwyr 16 oed a throsodd. Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw ymrestriad ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed.

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn i'w raglen ddechrau er mwyn nodi'r canlynol:
- p'un a oes ganddo unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gallai fod eu hangen ar y dysgwr wrth weithio tuag at ei gymwysterau
- unrhyw unedau y mae'r dysgwr eisoes wedi'u cwblhau, neu gredydau y mae wedi'u cronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir gennym y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn deall gofynion y cymhwyster, eu cyfrifoldebau fel dysgwyr, a chyfrifoldebau'r ganolfan, yn llawn.

Dylai pob dysgwr gael mynediad at y Canllaw i Ddysgwyr sydd ar gael ar wefan y Consortiwm.

## Ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith

Wrth gwblhau'r cymwysterau hyn, mae'n ofynnol i ddysgwyr dreulio o leiaf **60** awr (**10** diwrnod) yn ymgysylltu â'r sector, y mae'n rhaid i **30** awr (**5** diwrnod) o'r cyfnod hwnnw gael ei dreulio ar leoliad gwaith. Gellir ymgysylltu â'r sector mewn modd ystyrlon mewn sawl ffordd, megis darlithoedd gwadd sy'n gysylltiedig â chynnwys yr uned, ymweliadau gan gyflogwyr, ymweliadau â lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, sesiynau hyfforddi a mentora, cynlluniau cyfeillio, cyfleoedd gwirfoddoli sy'n briodol o ran oedran ac ati, wedi'u trefnu gan gyflogwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth am sut i ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys astudiaethau achos o arfer da, yn y canllawiau addysgu cysylltiedig. Mae 'Canllaw arfer da ar leoliadau gwaith' hefyd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

# Cofnod ymgysylltu â'r sector/lleoliadau gwaith a dyddiadur/cofnod myfyriol

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gofnodi eu profiadau o ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith yn y Cofnod Ymgysylltu â'r Sector a Lleoliadau Gwaith sydd ar gael ar dudalen y cymhwyster ar wefan y Consortiwm (www.dysguiechydagofal.cymru). Wrth gwblhau'r cofnod hwn, dylai dysgwyr grynhoi'r gweithgarwch, dyddiad y gweithgarwch a hyd y gweithgarwch mewn oriau. Fel arweiniad, mae enghraifft wedi'i chwblhau yn y templed. Rhaid i'r cofnod hwn gael ei gyflwyno i'w gymedroli yn unol â'r trefniadau a amlinellir ar dudalen 33.

Cynghorir dysgwyr yn gryf i gadw dyddiadur/cofnod myfyriol drwy gydol eu profiad o ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:

- y mathau o sefydliadau a gwasanaethau y mae'r dysgwyr wedi ymgysylltu â nhw ac wedi bod ar leoliad gwaith gyda nhw
- y mathau o dasgau a gweithgareddau y mae'r dysgwr wedi'u gwneud bob dydd tra oedd ar leoliad gwaith
- unrhyw broblemau a rhwystrau y mae'r dysgwr wedi dod ar eu traws a'r camau y mae'n eu cymryd i'w goresgyn.

Mae gwybodaeth i ddysgwyr am y dyddiadur/cofnod myfyriol, ynghyd â thempled y gallant ei ddefnyddio, i'w gweld yn y Canllaw i Ddysgwyr ( www.dysguiechydagofal.cymru).

Caniateir i ddysgwyr fynd ag hyd at chwech ochr (3 tudalen) o nodiadau A4 i'r amgylchedd asesu ar gyfer Aseiniad 2. Rhaid i'r nodiadau hyn gael eu cyflwyno gan y dysgwyr a rhaid iddynt ymwneud â'u profiad yn y sector. Felly dylid annog dysgwyr i ddefnyddio eu dyddiadur/cofnod myfyriol i lunio'r nodiadau hyn.

# Deunyddiau cefnogi

Mae ystod o adnoddau ar gael ar gyfer y cymwysterau hyn a gellir cael gafael arnynt ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol
- Canllawiau Addysgu
- Canllaw i Ddysgwyr
- Canllaw Gweinyddol Canolfannau.

# Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Mae'r asesiad allanol (Uned 1) ar gael ym mis Ionawr a mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Bydd yr ardystiad cyntaf ar gyfer y cymhwyster ar gael yn ystod haf 2020. Wedi hynny, bydd y cymhwyster ar gael i'w ardystio ar ôl pob cyfres ym mis Ionawr a mis Mai/Mehefin.

Dylid cofrestru ymgeiswyr ar gyfer yr asesiad diarholiad (Uned 2) fel rhan o gyfres mis Mai/Mehefin.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses cofrestru ac ardystio, gweler yr argraffiad presennol o Weithdrefnau Cofrestru a Gwybodaeth am Godau CBAC (Saesneg yn unig) sydd ar gael ar wefan CBAC ynwww.wjec.co.uk/exam-officers.

| Codau cofrestru | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl yr Uned** | **Asesu** | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd | Asesiad ar y Sgrin | 5972UA | 5972NA |
| | Asesiad ysgrifenedig | 5972UB | 5972NB |
| Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog | Asesiad diarholiad | 5972U2 | 5972N2 |
| Cyfnewid cymhwyster | | 5972Q0 | 5972C0 |

# Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Caiff Uned 2 ei hasesu ar ffurf asesiad diarholiad a rhaid i ganolfannau ddilyn Cyfarwyddiadau'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) ar gyfer asesiadau diarholiad, y gellir cael copi ohonynt ar wefan y Cyd-gyngor (www.jcq.org.uk). Yn unol â'r cyfarwyddiadau hyn, mae'n ofynnol i ganolfannau sefydlu polisi asesu di-arholiad; bydd hyn yn cael ei wirio yn rhan o'r broses gymeradwyo canolfannau a chymwysterau.

Mae tri cham asesu di-arholiad sy'n cael eu rheoli:

- gosod yr aseiniad
- gwneud yr aseiniad
- marcio'r aseiniad

## Gosod yr aseiniadau

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gwblhau dau aseiniad:

Mae **Aseiniad 1** yn cynnwys dewis o ddwy astudiaeth achos a fydd ar gael i ganolfannau o wefan ddiogel CBAC pob blwyddyn ar y dydd Llun cyntaf ym mis Ionawr (o 2020 ymlaen).

**Ni ddylid rhoi Aseiniad 1 i ymgeiswyr tan y bydd yr asesiad wedi dechrau.**
**Ni ddylai ymgeiswyr drafod na rhannu gwybodaeth ag eraill am yr astudiaeth achos neu dasgau yn ystod y cyfnod asesu.**

Darperir **Aseiniad 2** yn Atodiad A y fanyleb hon a bydd yn aros yr un fath yn ystod oes y fanyleb.

## Gwneud yr aseiniadau

Bydd gan ganolfannau rywfaint o hyblygrwydd o ran pryd i drefnu'r asesiad di-arholiad.
Mae angen cwblhau Aseiniad 1 yn ystod y cyfnod asesu.
Gellir cwblhau Aseiniad 2 yn ôl disgresiwn y ganolfan pan fydd yr oriau ymgysylltu sector penodol wedi'u cwblhau.

Fodd bynnag, bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod wedi cyflwyno'r cynnwys angenrheidiol i ymgeiswyr allu cael marciau a roddwyd am bob agwedd ar yr asesiad di-arholiad, cyn i ymgeiswyr ddechrau ar yr aseiniadau.

Bydd angen i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr wedi cwblhau'r aseiniadau (o fewn y rheolaethau penodedig) a bod gwaith wedi'i gwblhau mewn digon o amser i ganiatau amser ar gyfer y canlynol: marcio'r gwaith, llwytho'r marciau i fyny i System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol CBAC (IAMIS) ac anfon y sampl at y cymedrolwr erbyn 11 Mehefin bob blwyddyn.

Y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod wedi cyflwyno astudiaethau achos cywir ar gyfer Aseiniad 1 yn y flwyddyn academaidd y maent yn cofrestru.

Mae'n ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal y drefn asesu mewnol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen y CGC: *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad*. Mae pum agwedd ar wneud aseiniad sy'n cael eu rheoli: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio a threfniadau ailsefyll.

### Amser

Dylai ymgeiswyr dreulio tua 6 awr ar Aseiniad 1 a 4 awr ar Aseiniad 2. Mae'r amseroedd hyn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.  Mae'r gwaith ymgysylltu â'r sector a'r lleoliad gwaith sy'n ofynnol ar gyfer Uned 2, Aseiniad 2 yn ychwanegol at yr amser hwn.

Dylai'r dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer Aseiniad 1 gael ei chyflwyno ar ffurf tua 2,500 o eiriau. Dylai'r dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer Aseiniad 2 gael ei chyflwyno ar ffurf tua 2,500 o eiriau.

### Adnoddau

Ar gyfer Aseiniad 2, caniateir i ymgeiswyr fynd â chopi o'u Cofnod Ymgysylltu â'r Sector a Lleoliadau Gwaith a hyd at chwe ochr (3 tudalen) A4 o nodiadau ychwanegol i'r amgylchedd asesu. Gall ymgeiswyr ysgrifennu'r nodiadau neu ddefnyddio prosesydd geiriau. Dylai'r nodiadau hyn fod yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun a rhaid iddynt ymwneud yn benodol â gweithgareddau ymgysylltu â'r sector yr ymgeisydd gan gynnwys eu lleoliad gwaith. **Ni ddylai** nodiadau gynnwys atebion wedi'u paratoi ymlaen llaw i'r tasgau.

Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau a ddefnyddiwyd gan yr ymgeisydd a rhaid eu cyflwyno am adolygiad yn rhan o'r broses gymedroli.

Cyfrifoldeb yr athro/aseswr yw adolygu'r nodiadau y mae dysgwyr yn bwriadu mynd gyda nhw i'r amgylchedd asesu gan wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion uchod. Os oes gan athro/aseswr unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y nodiadau dylent atal yr asesiad rhag digwydd a dilyn unrhyw weithdrefnau mewnol sydd ar waith i ymdrin ag achosion lle mae amheuaeth o gamymddwyn.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC, *Camymddwyn – canllaw i ganolfannau a pholisi a gweithdrefnau amau camymddwyn mewn arholiadau ac asesiadau y CGC* os ydynt yn ansicr sut i symud ymlaen.

## Goruchwyliaeth

Dylai gwaith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a rhaid ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion yr aseiniadau ar gyfer asesiad di-arholiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig.

Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni chaiff athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.

Ar ôl cwblhau'r aseiniad a'i asesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach. Dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar bob aseiniad ar gyfer asesiad di-arholiad fel log. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli. Dylai'r log gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio tua 6 awr ar Aseiniad 1 a 4 awr ar Aseiniad 2.

## Dilysu

Mae’r athro’n gyfrifol am hysbysu ymgeiswyr o reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer y cymhwyster hwn.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddeall y bydd copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysu.

Mae'n bwysig bod gwaith asesu diarholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Dylai canolfannau fonitro gwaith ymgeiswyr drwy:

- gadw cofnod gofalus o gynnydd  yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw’r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad y ymgeiswyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan ar ôl i’r dystiolaeth (h.y. yr adroddiad a’r dystiolaeth ategol) gael ei chyflwyno
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i’r ymgeisydd i wneud newidiadau.

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol.

## Cydweithio

Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw aseiniadau ar gyfer asesiad di-arholiad.

## Trefniadau ailsefyll

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol un waith yn unig. Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll yr uned, rhaid iddo ail-sefyll Aseiniad 1 a 2. Rhaid i Aseiniad 1 fod yn seiliedig ar yr astudiaethau achos a ryddhawyd ar gyfer y gyfres sy'n cael ei hailsefyll. Gall yr ymgeisydd ddefnyddio'r un lleoliad profiad gwaith fel sail ar gyfer ailsefyll Aseiniad 2. Mae'n rhaid i'r ailsefyll gael ei gwblhau o fewn yr un lefelau o reolaeth.Ni chaiff ymgeiswyr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll yr uned asesiad di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr asesiad diarholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

## Marcio'r aseiniad

Caiff Aseiniad 1 ei asesu'n fewnol gan ddefnyddio'r cynllun marcio a gaiff ei ryddhau'n flynyddol gyda'r aseiniad.
Caiff Aseiniad 2 ei asesu'n fewnol gan ddefnyddio'r cynllun marcio yn Atodiad B.

Caiff y ddau aseiniad eu cymedroli'n allanol gan CBAC. Bydd y cymedroli allanol ar gael yng nghyfres yr haf yn unig. Rhaid i Aseiniad 1 ac Aseiniad 2 gael eu cyflwyno gyda'i gilydd i'w cymedroli erbyn 11 Mehefin bob blwyddyn.

## Safoni a chymedroli mewnol

Pan fo mwy nag un athro mewn canolfan, rhaid i waith gan bob grŵp addysgu gael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu yn y ganolfan.

## Gridiau asesu ac anodiadau athrawon

Wrth asesu'r dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer pob asesiad, dylai athrawon astudio bandiau a gridiau marciau'r asesiad di-arholiad, sydd wedi'u cynllunio i gyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau ac sy'n helpu i wahaniaethu'n glir rhwng y lefelau cyrhaeddiad amrywiol.

Mae'n ofynnol i athrawon gofnodi marciau ar wahân ar gyfer pob adran yn y lleoedd gwag ar y daflen farcio, gan nodi cyfanswm y marciau yn y blwch a gwneud sylw crynodol cyffredinol.

Er nad ydynt yn orfodol, mae anodiadau gan athrawon yng nghorff y dystiolaeth ysgrifenedig yn ddefnyddiol iawn er mwyn dangos ble a pham y rhoddwyd y marciau.

Bydd enghreifftiau o asesiadau diarholiad yn cael eu cyhoeddi yn gan CBAC er mwyn helpu canolfannau i nodi safon y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol. Bwriedir y deunyddiau hyn at ddefnydd aseswyr mewnol asesiadau diarholiad yn unig ac ni chaniateir eu rhannu ag ymgeiswyr.

## Cyflwyno marciau a gwaith cymedroli allanol

Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau gwaith yr asesiad diarholiad ar-lein erbyn dyddiad penodol ym mis Mehefin o flwyddyn cyflwyno'r gwaith i'w gymedroli. Pan gyflwynir y marciau i CBAC, bydd y system yn nodi sampl o ymgeiswyr y mae eu gwaith wedi'i ddewis i'w gymedroli.

Dim ond tystiolaeth gan yr ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer y sampl y dylid ei chyflwyno. Rhaid cadw gwaith yr holl ymgeiswyr eraill yn y ganolfan. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd a'r athro lofnodi'r dudalen glawr.

Rhaid dilysu gwaith pob ymgeisydd yn fewnol, nid y sampl yn unig, drwy lofnodi taflen glawr.

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau cymedroli allanol ar gael yn y fersiwn ddiweddaraf o Ganllaw Asesu Mewnol CBAC, sydd ar gael ar wefan CBAC (www.wjec.co.uk/exam-officers/?language_id=2).

## Adborth y ganolfan

Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl o'r broses gymedroli ar ffurf adroddiad electronig.

# Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau.

Dyfernir gradd y cymhwyster drwy gyfuno'r marciau a gyflawnwyd ar gyfer yr unedau. Bydd canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Cofnodir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maent yn cyfateb i'r graddau canlynol:

| | Marc Crai GMU | Rh | T | Ll | U |
|---|---|---|---|---|---|
| Arholiad Uned 1 | 100 | 80 | 60 | 40 | 0 |
| Uned 2 Asesiad Di-arholiad | 150 | 120 | 90 | 60 | 0 |

| | Marc Crai GMU | Rh | T | Ll | U |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | 250 | 200 | 150 | 100 | 0 |

Cynhelir y broses o ddyfarnu ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau ar gyfer Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ym mis Mawrth/Awst bob blwyddyn. Cyhoeddir tystysgrif ar gyfer y cymhwyster yn ddiweddarach a fydd yn cadarnhau teitl, lefel a gradd y cymhwyster.

# Disgrifyddion Gradd

Rhoddir disgrifyddion gradd er mwyn rhoi syniad cyffredinol am safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr yn debygol o fod wedi'u dangos wrth gael graddau penodol. Mae'n rhaid dehongli'r disgrifyddion mewn perthynas â'r cynnwys sy'n cael ei nodi gan y fanyleb; ni fwriedir iddynt ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Yn ymarferol, bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu i ba raddau y bydd yr ymgeisydd wedi bodloni'r disgrifyddion hyn. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar yr arholiad gael eu cydbwyso gan berfformiad gwell mewn agweddau eraill. Mae'r disgrifyddion a ddangosir yn gyfwerth â'r perfformiad trothwy ar bob lefel o'r cymhwyster ac ar radd uchaf Lefel 2. Caiff y radd Teilyngdod Lefel 2 ei phennu ar ffurf rifiadol.

Dyfernir graddau ar sail y disgrifyddion gradd canlynol.

Llwyddiant Lefel 2: Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth o agweddau sylfaenol ar y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Maent yn adolygu eu tystiolaeth ac yn llunio casgliadau sylfaenol. Maent yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau sylfaenol i roi ymatebion syml i ymholiadau a materion sy'n effeithio ar y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Mae ymgeiswyr yn gwerthuso tystiolaeth er mwyn dod i gasgliadau sylfaenol mewn perthynas â materion yn y sectorau. Gall y gwaith gynnwys rhai anghywirdebau neu fân hepgoriadau.

Lefel 2 Teilyngdod: Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o agweddau ar y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Maent yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael, gan ddadansoddi a gwerthuso rhywfaint o'r wybodaeth yn glir, a gyda rhyw raddau o gywirdeb. Maent yn mynegi barn ac yn dod i gasgliadau priodol. Maent yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth addas mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd er mwyn rhoi ymatebion sy'n briodol ar y cyfan i ymholiadau a materion sy'n effeithio ar y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Mae ymgeiswyr yn dadansoddi rhywfaint ac yn dod i gasgliadau mewn perthynas â materion yn y sectorau. Gall fod rhai mân anghywirdebau yn y gwaith neu fân hepgoriadau.

Lefel 2 Rhagoriaeth : Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth drylwyr o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r dystiolaeth sydd ar gael, gan adolygu ac addasu eu dulliau pan fo angen. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gywir, gan roi barn resymegol. Maent yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd er mwyn rhoi ymatebion priodol i ymholiadau a materion sy'n effeithio ar y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Mae ymgeiswyr yn gwerthuso tystiolaeth er mwyn dod i gasgliadau dilys a llunio barn mewn perthynas â materion yn y sectorau. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i fynegi'n glir.

# Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

Ar ôl cyhoeddi canlyniadau pob cyfres arholiadau, mae CBAC yn cynnig amrywiol wasanaethau ar ôl y canlyniadau'n ymwneud ag adolygiadau o'r marcio a'r safoni a mynediad i sgriptiau arholiadau. Ceir gwybodaeth am wasanaethau ar ôl y canlyniadau ar wefan y Consortiwm www.dysguiechydagofal.cymru.

# Ailsefyll

Gall dysgwyr ailsefyll yr arholiad allanol unwaith a chaiff y radd uchaf ei hystyried wrth ddyfarnu'r cymhwyster. Gall y dysgwyr ailsefyll y cymhwyster cyfan nifer o weithiau. Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll uned asesiad diarholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr asesiad diarholiad blaenorol), yna'r marc uwch fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol.

# Atodiad A: Aseiniad Asesiad Di-arholiad Uned 2

**Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**
**Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog**

**Aseiniad 2**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**TUA 4 AWR**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Bydd gennych tua 4 awr i gwblhau'r aseiniad a llunio adroddiad manwl.

Dylai eich adroddiad gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth y gwnaethoch eu meithrin wrth i chi ymgysylltu â'r sector ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Rhaid i'ch adroddiad fod tua 2,500 o eiriau.

Darllenwch y tasgau aseiniad yn ofalus i wneud yn siŵr eich bod yn deall beth sydd ei angen.

Mae'n gwaith bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith eich hun heb gymorth neb yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Efallai y bydd gennych fynediad i'ch log ymgysylltu â'r sector a nodiadau a gynhyrchwyd gennych yn ystod eich gweithgarwch ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys eich lleoliad gwaith. Gallwch ddod ag uchafswm o 6 ochr (3 tudalen A4) o nodiadau i'r amgylchedd asesu yn ogystal â'ch log ymgysylltu â'r sector.

Ni fydd mynediad i'r rhyngrwyd yn ystod yr amser asesu ffurfiol.

Mae ymgysylltu â'r sector yn cynnwys lleoliadau gwaith ac ymweliadau a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ymweld â'r ysgolion/colegau i roi cyflwyniadau.

Bydd angen i chi ac eich athro/athrawes lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

## Aseiniad 2: Lleoliadau gwaith ac ymgysylltu â'r sector

**Lluniwch adroddiad i gynnwys tystiolaeth o'r holl dasgau fel y dangosir isod.**

Mae'r tasgau'n seiliedig ar eich lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector.

**Tasg (a)** Dewiswch **ddau** weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol o leoliadau gwahanol yr ydych chi wedi ymgysylltu â nhw. Rhaid i **un** ohonynt fod o'ch **lleoliad gwaith** ac **un** o **ymgysylltu â'r sector** ychwanegol. [8+8 marc]

Lluniwch grynodeb ar gyfer pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cyfeirio at:

- rolau a chyfrifoldebau
- mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw
- llwybrau gyrfa perthnasol
- rhinweddau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl.

**Tasg (b)** (i) Diffiniwch beth yw ystyr gofal person-ganolog.[2 farc]

(ii) Rhestrwch **dair** o fanteision i'r unigolyn o ymarfer person-ganolog.[3 marc]

(ii) Esboniwch sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hybu ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer iechyd a llesiant.

[9 marc]

**Tasg (c)** Esboniwch sut mae'r lleoliad(au) rydych wedi cael profiad ohonyn nhw yn cefnogi a hybu **dau** o'r canlynol:[15 marc]

- cydgynhyrchu
- hawliau unigolion a gofalwyr mewn perthynas â'u hanghenion iaith a'u dymuniadau
- diogelu
- parch tuag at amrywiaeth a natur unigryw unigolion
- dewis a rheolaeth mewn cynlluniau personol.

**Tasg (ch)** Myfyriwch ar sut mae eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth chi wedi elwa o ymgymryd â lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector. [15 marc]

Mae angen i chi gyfeirio at y canlynol:

- beth rydych chi'n teimlo oedd eich cryfderau a'ch gwendidau yn ystod eich lleoliad gwaith a chyfleoedd ymgysylltu â'r sector
- beth fyddech **chi** yn ei wneud yn wahanol pe byddech yn ymgymryd â'ch lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector eto.

**Aseiniad 2: Cyfanswm 60 marc**

# ATODIAD B:
# Cynllun Marcio Aseiniad Di-arholiad Uned 2

**Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog**

**Cynllun marcio Aseiniad 2: Lleoliadau gwaith ac Ymgysylltu â'r Sector**

| **Tasg (a)** | **Dewiswch ddau weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol o leoliadau gwahanol yr ydych chi wedi ymgysylltu â nhw. Rhaid i un ohonynt fod o'ch lleoliad gwaith ac un o ymgysylltu â'r sector ychwanegol. [8+8 marc]**<br><br>**Lluniwch grynodeb ar gyfer pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cyfeirio at:**<br>• **rolau a chyfrifoldebau**<br>• **mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw**<br>• **llwybrau gyrfa perthnasol**<br>• **rhinweddau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl.** | |
|---|---|---|
| **Band** | **AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* | |
| **4** | **7-8 marc**<br>Crynodeb ardderchog a manwl o rolau a chyfrifoldebau un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol. Cyfeirio yn rhagorol at y mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw, y llwybrau gyrfaol a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau swydd a ddewiswyd. | **7-8 marc**<br>Crynodeb ardderchog a manwl o rolau a chyfrifoldebau un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol arall. Cyfeirio yn rhagorol at y mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw, y llwybrau gyrfaol a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau swydd a ddewiswyd. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Crynodeb da o rolau a chyfrifoldebau un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol. Cyfeirio yn dda at y mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw, y llwybrau gyrfaol a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau swydd a ddewiswyd. | **5-6 marc**<br>Crynodeb da o rolau a chyfrifoldebau un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol arall. Cyfeirio yn dda at y mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw, y llwybrau gyrfaol a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau swydd a ddewiswyd. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Crynodeb sylfaenol o rolau a chyfrifoldebau un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol arall. Cyfeirio i ryw raddau at y mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw, y llwybrau gyrfaol a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau swydd a ddewiswyd. | **3-4 marc**<br>Crynodeb sylfaenol o rolau a chyfrifoldebau un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol arall. Cyfeirio i ryw raddau at y mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw, y llwybrau gyrfaol a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau swydd a ddewiswyd. |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1-2 marc**<br>Crynodeb cyfyngedig o rolau a chyfrifoldebau un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol. Cyfeiriad cyfyngedig at y mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw, y llwybrau gyrfaol a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau swydd a ddewiswyd. | **1-2 marc**<br>Crynodeb cyfyngedig o rolau a chyfrifoldebau un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol arall. Cyfeiriad cyfyngedig at y mathau o leoliadau y gallan nhw weithio ynddyn nhw, y llwybrau gyrfaol a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r rolau swydd a ddewiswyd. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | |
| | **Bydd yr atebion i'r tri phwynt bwled cyntaf yn dibynnu ar y lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol y mae'r dysgwr wedi ymgysylltu â nhw.**<br><br>Wrth gyfeirio at y pwynt bwled olaf gall atebion gyfeirio at:<br>Rhinweddau y mae eu hangen i fod yn weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Gan gynnwys:<br>• astudrwydd<br>• gallu gweithio gydag eraill<br>• ymroddiad<br>• empathi<br>• hyblygrwydd<br>• gonestrwydd<br>• angerdd<br>• amynedd<br>• agwedd gadarnhaol<br>• dibynadwyedd<br>• synnwyr digrifwch<br>• sensitif i anghenion pobl eraill<br>• parchu eraill<br>• parod i ddysgu. | |

| Tasg (b) | (i) Diffiniwch beth yw ystyr gofal person-ganolog. [2 farc] |
|---|---|
| **Band** | **AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| | **Dyfarnwch 2 farc** am ddiffiniad clir sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o beth yw gofal person-ganolog.<br><br>**Dyfarnwch 1 marc** am ddiffiniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o beth yw gofal person-ganolog.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.<br><br>Gall yr ateb gyfeirio at:<br><br>Mae gofal person-ganolog yn ddull sy'n ystyried bod unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bartneriaid cyfartal wrth gynllunio, datblygu a monitro eu gofal er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni eu hanghenion. |

| **Tasg (b)** | **(ii) Rhestrwch dair o fanteision i'r unigolyn o ymarfer person-ganolog.** **[3 marc]** |
|---|---|
| **Band** | **AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| | **Dyfarnwch 1 marc** hyd at uchafswm o 3 am bob mantais ddilys a restrwyd.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc/heb geisio rhoi ateb.<br><br>Gall atebion gyfeirio at:<br>• gallai wella canlyniadau iechyd a llesiant unigolyn<br>• yn hybu parch at ddymuniadau'r unigolyn<br>• yn caniatáu i'r unigolyn wneud dewisiadau gwybodus<br>• hyblygrwydd y gwasanaethau<br>• yn bodloni anghenion amrywiol pobl wahanol<br>• yn sicrhau bod y gofal ar gyfer unigolion yn addas ar gyfer eu chwenychiadau a'u hanghenion<br>• yn sicrhau bod unigolion yn teimlo eu bod yn cael gofal corfforol ac emosiynol. |

| Tasg (b) | (iii) Esboniwch sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hybu ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer iechyd a llesiant. [9 marc] |
|---|---|
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **7-9 marc**<br>Esboniad manwl a gwych o sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hybu ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer iechyd a llesiant. Esboniad yn dangos cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn wych. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da o sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer iechyd a llesiant. Esboniad yn dangos cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn dda. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol o sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hybu ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer iechyd a llesiant. Esboniad yn dangos cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn sylfaenol. |
| **1** | **1-2 marc**<br>Esboniad cyfyngedig o sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hybu ymarfer person-ganolog a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer iechyd a llesiant. Esboniad yn dangos cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig. |
|  | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Tasg (c) | Esboniwch sut mae'r lleoliad(au) rydych wedi cael profiad ohonyn nhw yn cefnogi a hybu dau o'r canlynol: [15 marc]<br>• cydgynhyrchu<br>• hawliau unigolion a gofalwyr mewn perthynas â'u hanghenion iaith a'u dymuniadau<br>• diogelu<br>• parch tuag at amrywiaeth a natur unigryw unigolion<br>• dewis a rheolaeth mewn cynlluniau personol. |
|---|---|
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **12-15 marc**<br>Esboniad manwl a gwych ynghylch sut mae'r lleoliad(au) y mae'r dysgwr wedi cael profiad ohonyn nhw yn cefnogi a hybu unrhyw **ddau** o'r meysydd a restrir. |
| **3** | **8-11 marc**<br>Esboniad da ynghylch sut mae'r lleoliad(au) y mae'r dysgwr wedi cael profiad ohonyn nhw yn cefnogi a hybu unrhyw **ddau** o'r meysydd a restrir. |
| **2** | **4-7 marc**<br>Esboniad sylfaenol ynghylch sut mae'r lleoliad(au) y mae'r dysgwr wedi cael profiad ohonyn nhw yn cefnogi a hybu unrhyw **ddau** o'r meysydd a restrir. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Esboniad cyfyngedig ynghylch sut mae'r lleoliad(au) y mae'r dysgwr wedi cael profiad ohonyn nhw yn cefnogi a hybu unrhyw **ddau** o'r meysydd a restrir. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |
| | **Dyfarnwch uchafswm o 8 marc os mai dim ond un maes a enwir sy'n cael ei esbonio.** |

| Tasg (ch) | Myfyrio ar sut mae eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth chi wedi elwa o ymgymryd â lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector. [15 marc]<br><br>Efallai yr hoffech chi gyfeirio at:<br><br>• beth rydych chi'n teimlo oedd eich cryfderau a'ch gwendidau ar eich lleoliad(au) gwaith ac ymgysylltu â'r sector<br>• beth fyddech chi yn ei wneud yn wahanol pe byddech yn ymgymryd â'ch lleoliad(au) gwaith ac ymgysylltu â'r sector eto. |
|---|---|
| **Band** | **AA3:** *Dadansoddi a myfyrio ar agweddau ar egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol* |
| **4** | **12-15 marc**<br>Myfyrio yn wych a manwl ar sut mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wedi elwa o ymgymryd â lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector.<br><br>Myfyrio yn glir a manwl ac yn mynd i'r afael â chryfderau a gwendidau ac yn gwneud argymhellion dilys ar gyfer gwella. |
| **3** | **8-11 marc**<br>Myfyrio yn dda ar sut mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wedi elwa o ymgymryd â lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector.<br><br>Mae'r myfyrio yn cael ei esbonio'n dda, a chyfeirir at gryfderau, gwendidau ac argymhellion ar gyfer gwella, ond gall y manylion amrywio. |
| **2** | **4-7 marc**<br>Myfyrio yn sylfaenol ar sut mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wedi elwa o ymgymryd â lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector.<br><br>Mae'r myfyrio yn gryno ac mae diffyg manylder. Gellir cyfeirio'n sylfaenol at gryfderau, gwendidau a/neu argymhellion ar gyfer gwella. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Myfyrio yn gyfyngedig ar sut mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wedi elwa o ymgymryd â lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector.<br><br>Mae'r myfyrio yn syml ac yn gryno ac efallai na fydd yn cyfeirio'n benodol at gryfderau, gwendidau neu argymhellion ar gyfer gwella. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |